GWNEUD PETHAU'N IAWN!

Yr CCUHP Yn blaen

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

A02, CH02, YP02, PC01

ESF
Llywodraeth Cymru
Welsh Assembly Government
Ewrop & Cymru: Buddsoddi yn eich Dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your Future
European Social Fund

Papur cefndir ar yr CCUHP yw hwn, ac rydyn ni'n cynghori y dylai'r hwyluswyr ei ddarllen cyn rhoi unrhyw un o'r gweithdai ar yr CCUHP.

Gallai gael ei ddefnyddio hefyd fel adnodd yn ystod y gweithdai gydag oedolion, rhieni/gofalwyr neu bobl ifanc o oedran uwchradd (i'w ddefnyddio ar y cyd â'r rhestr o erthyglau'r CCUHP o Adnoddau'r Gweithdai).

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yw'r **CCUHP**. Weithiau yn Gymraeg mae pobl yn cyfeirio ato hefyd fel y CCUHP.

Mae'n rhestr o hawliau sydd gan bob plentyn a phob person ifanc, ym mhobman yn y byd, ni waeth pwy ydyn nhw, ble maen nhw'n byw na beth yw eu credo.

Er nad yw'r CCUHP yn gyfraith ar hyn o bryd, mae llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cytuno iddo (wedi'i gadarnhau) ac mae'n gweithio i sicrhau bod gan holl blant y Deyrnas Unedig eu holl hawliau yn yr CCUHP.

Mae pob llywodraeth yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru, hefyd yn gorfod sicrhau bod plant, pobl ifanc ac oedolion yn gwybod am y Confensiwn ac yn ei ddeall.

Mae 54 o erthyglau yn yr CCUHP:

Mae'n diogelu hawliau plant a phobl ifanc hyd at 18 oed ledled y byd. Yng Nghymru mae'n sail ar gyfer yr holl bolisïau sy'n cael eu gwneud ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed.

Mae erthyglau 1-41 (bob un yn amlinellu un Hawl) yn nodi sut y dylai plant a phobl fanc gael eu trin.

Mae'r 13 erthygl arall yn ymwneud â sut y dylai llywodraethau ac oedolion weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu sicrhau a mwynhau eu Hawliau (1-41).

Yr Hawliau hyn yw'r pethau sy'n bwysig er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc:

- yn ddiogel
- yn rhydd rhag gwahaniaethu yn eu herbyn
- yn cael amddiffyniad i'w lles gorau
- yn cael y pethau y mae arnyn nhw eu hangen i oroesi a datblygu, ac
- yn cael llais yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Pob Hawl POB Plentyn a Pherson Ifanc Bob Amser

Mae hawliau yn rhywbeth sydd gan bawb am eu bod nhw wedi cael eu geni. Does neb â'r pŵer i'w rhoi nhw ichi nac i'w cymryd nhw oddi arnoch chi. Does dim amodau ynglŷn â nhw. Mae gan blant a phobl ifanc lawer o hawliau. Mae'r hawliau hyn wedi'u nodi mewn nifer o gytuniadau rhyngwladol ac Ewropeaidd (sydd fel arfer yn cael eu galw'n "confensiynau") ac mewn cyfreithiau.

Mae gan blant a phobl ifanc hawliau o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a hawliau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn sy'n gyfraith hawliau dynol ryngwladol y cytunodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig â hi ym 1991. Ar ben hynny, mabwysiadodd Llywodraeth Cynulliad Cymru yr CCUHP yn 2004 yn sail ar gyfer ei holl bolisïau ar blant a phobl ifanc. Weithiau rydyn ni'n galw pobl yn "ddeiliaid hawliau" i bwysleisio bod hawliau ganddyn nhw. Yn ogystal â siarad am hawliau plant a phobl ifanc, mae'r Confensiwn yn nodi llawer o bethau y mae angen i lywodraethau ledled y byd eu gwneud i helpu plant a phobl ifanc i fwynhau eu hawliau. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau bod cynifer â phosibl o bobl yn deall ac yn gwybod am hawliau ac yn helpu plant a phobl ifanc i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed wrth i benderfyniadau gael eu gwneud sy'n effeithio arnyn nhw.

Serch hynny, wrth inni ddysgu am hawliau rydyn ni'n dysgu bod hawliau gan bobl eraill hefyd, ac nid dim ond ni. Oherwydd hynny, wrth inni fwynhau ein hawliau ein hunain, rydyn ni o dan ddyletswydd i sicrhau na fyddwn ni'n gwneud hynny mewn ffordd sy'n gwrthod eu hawliau nhw i bobl eraill. Felly, er enghraifft, os ydych chi'n mwynhau'ch hawl i gymryd rhan mewn penderfyniadau ar faterion sy'n effeithio arnoch chi (Erthygl 12) drwy gymryd rhan mewn trafodaeth gyda 6 o bobl eraill, mae gan bob un o'r 7 ohonoch chi hawl i gael ei lais wedi'i glywed – hyd yn oed os yw eu barn nhw yn sylfaenol wahanol i'ch barn chi.

Cofiwch – Does dim cyfrifoldebau i gyd-fynd â hawliau; mae hawliau'n ddiamod.

Y pethau mae gennych chi hawl i'w cael yw hawliau, **anghenion** yw'r pethau sy'n angenrheidiol ichi. Does dim dyletswydd ar lywodraethau i ateb eich anghenion ond maen nhw o dan ddyletswydd i barchu'ch hawliau ac i'ch helpu i wybod amdanyn nhw a'u sicrhau nhw.

Mae Hawliau yn gysylltiedig â bod, ond mae anghenion yn gysylltiedig â chael.

Pedair prif egwyddor sydd i'r CCUHP:

Peidio â gwahaniaethu (Erthygl 2) Mae'n rhaid i lywodraethau sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn mwynhau ei hawliau. Ddylai neb ddioddef gwahaniaethu. Mae hyn yn gymwys i bob plentyn neu berson ifanc, "ni waeth beth fo hil, lliw, rhyw, iaith, crefydd, barn wleidyddol neu farn arall, tarddiad cenedlaethol, ethnig neu gymdeithasol, eiddo, anabledd, statws genedigol neu statws arall y plentyn neu ei riant neu ei warcheidwad cyfreithiol".

Lles Gorau'r Plentyn (Erthygl 3) Wrth i lywodraethau wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc, mae'n rhaid iddyn nhw feddwl am les gorau'r plant yn gyntaf. Mae'r egwyddor hon yn cyfeirio at benderfyniadau gan lysoedd barn, awdurdodau gweinyddol, cyrff deddfu a sefydliadau lles cymdeithasol yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Yr Hawl i Fyw, Goroesi a Datblygu (Erthygl 6) Mae'r erthygl hon yn gysylltiedig â'r hawl i oroesi a datblygu. Ystyr eang sydd i'r term "datblygu", gan gynnwys datblygu corfforol, meddyliol, emosiynol, cymdeithasol a diwylliannol.

Barn y Plentyn (Erthygl 12) Mae gan blant a phobl ifanc hawl i gymryd rhan ym mhob mater sy'n effeithio arnyn nhw, a dylai'r farn honno gael sylw priodol "yn unol ag oed ac aeddfedrwydd y plentyn". Yn fyr, mae gan blant yr hawl i gael eu gwrando ac i'w barn gael ei chymryd o ddifrif.

Mae pob un o'r erthyglau'n ymdrin â Thair Prif Thema

Cyfranogi

Mae'r erthyglau hyn wedi'u seilio ar syniad y plentyn neu'r person ifanc fel rhywun sy'n cyfrannu'n weithgar i'r gymdeithas ac nid dim ond yn derbyn triniaeth dda neu ddrwg gan bobl eraill.

Darparu

Mae'r erthyglau hyn yn ymdrin â hawliau sylfaenol plant a phobl ifanc i oroesi a datblygu. Maen nhw'n amrywio drwy ofal iechyd, bwyd a dŵr glân i addysg ac amgylchedd sy'n caniatáu i blant ddatblygu. Mae'r Confensiwn yn glir mai'r lle gorau i blentyn fel rheol yw gyda'i rieni, a bod y Llywodraeth o dan ddyletswydd i gefnogi rhieni a'u helpu.

Diogelu

Mae'r erthyglau hyn yn ymdrin ag ecsbloetio plant a phobl ifanc yn y gwaith; camdriniaeth gorfforol, rywiol a seicolegol; gwahaniaethu a mathau eraill o gam-drin y mae llawer yn dal i ddioddef ohonyn nhw, gan gynnwys yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Confensiwn yn gosod dyletswydd ar Lywodraethau i ddiogelu plant a phobl ifanc, a darparu adsefydlu ar eu cyfer os oes ei angen.

Yr CCUHP yng Nghymru

Aeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ati yn 2004 i fabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn sail ar gyfer ei holl waith gyda phlant a phobl ifanc. Erbyn hyn, y Confensiwn yw'r sail ar gyfer gwneud polisïau i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Dim ond rhai 0-18 oed sy'n cael troi at Hawliau'r Confensiwn, ond yng Nghymru mae egwyddorion y Confensiwn yn ffurfio'r sail ar gyfer pob polisi sy'n cael ei wneud ar gyfer pobl ifanc o 0-25 oed, sy'n rhywbeth gwahanol ac mae'n rhaid i unrhyw adnoddau a fydd yn cael eu datblygu adlewyrchu hyn ac egluro hyn.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio:

- I ddatblygu a lledaenu adnoddau sy'n codi ymwybyddiaeth o'r CCUHP ledled Cymru ymhlith plant, pobl ifanc, rhieni, a phob oedolyn a gweithiwr proffesiynol fel uchod.
- I sicrhau bod yr CCUHP yn fwy gweladwy yn gyhoeddus gyda gwybodaeth am yr CCUHP ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru a gwefannau'r awdurdodau lleol, ac yn y gwaith o wneud polisïau yng Nghymru.

Saith Nod Craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru

Yn 2004 ailadroddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei hymrwymiad i hawliau plant a phobl ifanc drwy nodi Saith Nod Craidd, sydd i bob pwrpas yn grynodeb o'r CCUHP o dan saith pennawd allweddol.

Mae'r saith nod craidd hyn yn sail i arferion gwaith unrhyw wasanaeth neu sefydliad sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru.

Dylai plant a phobl ifanc gael:

- dechrau da mewn bywyd
- mynediad at ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg, hyfforddiant a dysg
- yr iechyd corfforol a meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau posibl, gan gynnwys rhyddid rhag camdriniaeth, erledigaeth ac ecsploetiaeth
- mynediad at weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol
- eu trin gyda pharch, yn cael pobl i wrando arnynt, gan gydnabod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol
- cartref a chymuned ddiogel sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol
- bywyd sydd heb anfantais oherwydd unrhyw fath o dlodi.

Cwestiynau Cyffredin

Pam mae arnon ni angen y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn?

- Mae gan blant a phobl ifanc yr un hawliau dynol â phawb arall. Ond am eu bod yn ifanc ac yn agored i niwed, mae'r Confensiwn yn rhoi hawliau ychwanegol iddyn nhw i'w diogelu ac i sicrhau na fydd yna wahaniaethu yn eu herbyn.
- Mae plant a phobl ifanc yn arbennig o agored i'r amgylchedd a'r amodau cyffredinol y maen nhw'n byw odanyn nhw ac maen nhw'n fwy agored i niwed na grwpiau eraill yn y gymdeithas.
- Gallan nhw fod yn 'anweladwy' os na fydd oedolion yn darparu'r modd iddyn nhw gael eu clywed.
- Dydy plant a phobl ifanc ddim bob amser wedi'u derbyn fel deiliaid hawliau – yn aml maen nhw a'u hawliau yn cael eu gweld fel 'eiddo' i'w rhieni.

Pam mae'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn mor bwysig?

- Mae'n rhoi blaenoriaeth yn y gyfraith i'r syniad bod gan blant hawliau dynol ac y dylai'r hawliau hyn fod wrth galon llywodraethiant.
- Mae'n ymdrin â hawliau plant a phobl ifanc mewn ffordd holistig, gan drin pob agwedd ar hunaniaeth yn gydradd bwysig.
- Mae'n pwysleisio bod angen diogelu plant a phobl ifanc ac y dylen nhw hefyd gael grym fel dinasyddion nawr.
- Mae'n gymwys drwy'r amser i bob plentyn a pherson ifanc ym mhob sefyllfa.

Cwestiynau Cyffredin

Beth yw Hawl?

- Mae Hawl yn rhywbeth y mae gan blant a phob ifanc hawl i'w gael. Does dim rhaid ennill hawliau, ac maen nhw'n perthyn i bib plentyn a pherson ifanc o'r adeg y maen nhw'n cael eu geni.

Beth yw Hawliau Dynol?

- Mae Hawliau Dynol yn warantau cyffredinol sy'n diogelu unigolion a grwpiau rhag gweithredodd (troseddau) a hepgoriadau (methiannau) sy'n effeithio ar eu rhyddid a'u hurddas fel pobl.

Oes yna gyfrifoldebau i gyd-fynd â hawliau?

- Nac oes! Mae hawliau yn anaralladwy ac maen nhw'n perthyn i bawb yn ddiamod. Ond, wrth fynnu'n hawliau ni'n hunain mae'n rhaid inni sicrhau nad ydyn ni'n atal pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau nhw.

Beth yw angen?

- Mae Hawliau yn gysylltiedig â bod, ond mae anghenion yn gysylltiedig â chael

Cofiwch Fod Gan Bob Plentyn A Pherson Ifanc Eu Holl Hawliau Drwy'r Amser

Eisiau Gwybod Mwy Byth? Dyma rai Gwefannau Gwerth eu Gweld

1. CCUHP: Gwneud Pethau'n Iawn	www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk
2. Cynghorau Ysgol Cymru	www.schoolcouncilswales.org.uk
3. Y Ddraig Ffynci	www.funkydragon.org
4. Comisiynydd Plant Cymru	www.complantcymru.org.uk/cy
5. Achub y Plant	www.savethechildren.org.uk
6. CLIC: Y Gwasanaeth Gwybodaeth a Chyngor Cenedlaethol i Blant a Phobl Ifanc	www.cliconline.co.uk/cym
7. Plant yng Nghymru	www.plantyngnghymru.org.uk/index.html
8. 2.Canllawiau ABCh	www.wales.gov.uk/psesub/home/?skip=1&lang=cy
9. Barnados	www.barnardos.org.uk/cym
10. Consortiwm Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc	www.participationunit@savethechildren.org.uk